



'Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi'

Brynhawn ddydd Mercher, 03/06/2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, fanylion y cam nesaf i ysgolion yng Nghymru, gan roi cyfle i'ch plentyn "Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi". Yn y datganiad hwn, cadarnhaodd y Gweinidog y bwriad i ysgolion gynllunio i ddechrau'r cyfnod nesaf ar 29 Mehefin, gyda thymor yr Haf yn cael ei ymestyn o wythnos, a gorffen ar 27 Gorffennaf. Ar ben hynny, bydd wythnosau olaf tymor yr Haf yn cael eu defnyddio i ofalu bod disgyblion, staff a rhieni yn cael eu paratoi - yn feddyliol, yn emosiynol ac yn ymarferol - am y normal newydd ym mis Medi. Bydd hanner tymor yr Hydref yn cael i ymestyn i bythefnos.

Mae cyswllt i'r datganiad dros y dudalen, ac rydym hefyd wedi atodi crynodeb o'r datganiad ar dudalen dau, fel cymorth.

Ein blaenoriaeth ni yw diogelwch a lles eich plentyn chi, ac rydym yn aros am ganllawiau manwl a fydd yn gymorth i ni gynllunio a pharatoi ar gyfer y cam nesaf hwn. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd y canllawiau pellach hyn yn cael eu cyhoeddi wythnos nesaf, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ar reoli cyfleusterau a threfniadau ymarferol, gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chlundant. Er hynny, rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ac ystyried, gan roi blaenoriaeth i lesiant dysgwyr, staff a theuluoedd a chefnogi ysgolion i gynllunio dull dychwelyd yn raddol sy'n briodol i'w cymuned.

Yn naturiol, bydd gennych lawer o gwestiynau ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, y consortiwm rhanbarthol a llywodraethwyr fel y gallwn roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i allu paratoi am y cam nesaf hwn. Er mwyn cadw mewn cysylltiad â chi yn gyson, rydym yn bwriadu rhannu holiadur* i chi gael lleisio eich barn, a fydd yn ein helpu ni i gynllunio maes o law (* efallai y daw'r holiadur hwn gan yr awdurdod lleol hefyd). Bydd yr wythnosau nesaf hyn yn rhai prysur iawn wrth i ni geisio cwblhau ein hasesiadau risg, a pharatoi safle'r ysgol. Ond, cofiwch mai ein blaenoriaeth ni yw rhoi gwybodaeth i chi a'ch plant.

Bydd trefniadau gofal presennol yr ysgol yn parhau h.y i blant gweithwyr allweddol.

Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar yr adeg anodd hwn.

Crynodeb o gyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 03/06/20, a chyswllt ato.

Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi".

<https://llyw.cymru/dod-ir-ysgol-dal-ati-i-ddysgu-paratoi-ar-gyfer-yr-haf-mis-medi>

Beth

Bydd bob ysgol yn dechrau'r cam nesaf ar 29 Mehefin, gyda'r tymor yn cael ei ymestyn am wythnos hyd at 27 Gorffennaf.

Bydd hanner tymor yr Hydref yn cael ei ymestyn i bythefnos.

Bydd darparwyr gofal plant hefyd yn cynyddu nifer y plant sy'n bresennol o 9 Mehefin.

Sut

Ym mhob ysgol, bydd dull o weithredu fesul cam yn cael ei roi ar waith.

Bydd y blynyddoedd ysgol yn cael eu rhannu yn grwpiau ac yn dechrau yn ôl ac yn cael gwersi ac egwylliau fesul grŵp.

Mae disgwyl y bydd hyn yn golygu, yn fras, y bydd traean o ddisgyblion yn bresennol ar unrhyw un amser, ond efallai y bydd ysgolion angen amser i gyrraedd y lefel weithredu hon.

Bydd y dosbarthiadau'n llawer llai, gan ddarparu amser penodol gydag athrawon a chyd-ddisgyblion.

Bydd yr amser hwn yn cynnwys profiad dosbarth ar-lein a phersonol, gan baratoi plant a staff ar gyfer profiad tebyg ym mis Medi.

Pam

Rydym yn creu'r cyfle i blant Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf cyn dechrau mis Medi.

Ers y penderfyniad i gau ysgolion ar gyfer darpariaeth statudol, mae ein dealltwriaeth o'r feirws a'i effeithiau hirdymor wedi parhau i ddatblygu.

Gwyddom y bydd rhaid i ni fyw â hyn am beth amser.

Gwyddom mai dyma fydd yr her fwyaf i ni hyd y gellir rhagweld.

Gwyddom y bydd profiad yn y dosbarth yn wahanol am amser hir eto.

Beth nesaf

Wythnos nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi gofal plant, ysgolion, yn ogystal â sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar reoli eu cyfleusterau a threfniadau cynllunio, gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chludiant.

